## Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 24 Hydref 2001 |
| **Amser:** | 9.30am hyd 12.15pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas | Castell-nedd |
| (Cadeirydd) | |
| Edwina Hart | Gyr |
| (Gweinidog) | |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| (Dirprwy Weinidog) | |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| John Bader | Cyfarwyddwr Tai |
| Geoff Marlow | Y Gyfarwyddiaeth Dai |

| | |
|---|---|
| Norma Barry | Y Gyfarwyddiaeth Cymunedau |
| Trevor Samuel | Y Gyfarwyddiaeth Cymunedau |
| Alan Thornton | Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol |
| Graham Davies | Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol |
| Gwilym Evans | Cyllid Llywodraeth Leol |
| Dylan Hughes | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| Kate Cassidy | Moderneiddio Llywodraeth Leol |
| Y Cynghorydd Syr Harry Jones | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Y Cynghorydd Russell Goodway | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Ian Miller | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| *Ysgrifenyddiaeth:* | |
| Roger Chaffey | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau a dirprwyon**

1.1 Roedd Geraint Davies yn dirprwyo dros Janet Ryder. Ar ran y Pwyllgor dywedodd y Cadeirydd ei bod am gyfleu ei gydymdeimlad â Janet Ryder ar farwolaeth sydyn ei thad.

**Eitem 2: Datgan buddiannau**

2.1 Gwnaethpwyd y datganiadau isod:

- Dywedodd Peter Black ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe ac yn Gadeirydd y Comisiwn Digartrefedd;
- Dywedodd Janet Davies ei bod yn Aelod o Gyngor Cymuned Llanhari;
- Dywedodd William Graham ei fod yn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd;

- Dywedodd Dai Lloyd ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe ac yn feddyg teulu;

- Dywedodd Geraint Davies ei fod yn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac yn fferyllydd.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog**

3.1 Yn ychwanegol at ei hadroddiad ysgrifenedig dywedodd y Gweinidog fod y Grant Cyfalaf Tywydd Garw wedi ei gyflwyno i helpu awdurdodau lleol i atgyweirio'r difrod a wnaed gan lifogydd yr Hydref diwethaf. Daeth ceisiadau i law am dros 300 o brosiectau yn costio £21.8 miliwn. Dywedodd fod 268 o brosiectau wedi eu cymeradwyo, a byddai hynny'n golygu bod yr awdurdodau lleol yn derbyn £14.6 miliwn dros y 5 mlynedd nesaf.

3.2 Dywedodd y Gweinidog fod 10 y cant o'r ceisiadau wedi eu gwrthod ar y sail mai eu diben oedd sicrhau gwarchodaeth rhag tywydd garw i'r dyfodol yn hytrach nag atgyweirio difrod a wnaed. Dywedodd y byddai'r swyddogion yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol i nodi ffyrdd eraill o fynd ar drywydd cynlluniau a fwriedir i wella'r amddiffyniad rhag llifogydd. Dywedodd y Gweinidog y câi'r cyhoeddiad am y Grant Cyfalaf Tywydd Garw ei roi ar y rhyngrwyd.

3.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Pwyllgor y cyhoeddiad am y Grant Cyfalaf Tywydd Garw. Teimlai'r Aelodau ei bod yn holl-bwysig i'r Cynulliad weithio gyda llywodraeth leol i ganfod atebion i lifogydd. Byddai hefyd yn bwysig cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflwyno mesurau ataliol cyn gynted ag sy'n ymarferol. Nodwyd bod y Gweinidog wedi cwrdd â'r Gweinidog dros yr Amgylchedd i ystyried adnoddau sydd ar gael o fewn y gyllideb bresennol y gellid eu defnyddio i helpu i ymladd y broblem tywydd garw a llifogydd.

- Codwyd pryderon fod perygl i'r ardaloedd a oedd wedi eu difrodi gan lifogydd yr hydref diwethaf gael llifogydd eto. Yn arbennig, roedd yna bryder fod Rhuthun wedi dioddef llifogydd unwaith eto yn sgîl y tywydd garw yn ddiweddar. Nodwyd bod Cyngor Sir Ddinbych wedi dod ag ymgynghorwyr i mewn i roi sylw i'r mater. Dywedodd y Gweinidog y byddid yn ystyried y cynigion a gâi eu dwyn gerbron i fynd i'r afael â llifogydd.

- Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion am y gyfran o'r Grant Cyfalaf Tywydd Garw a gâi ei dosbarthu i ardaloedd a oedd wedi dioddef effeithiau tirlithriadau yn hytrach na llifogydd.

- Croesawai'r Pwyllgor y cynigion i ddarparu oddeutu £52 miliwn o Gymeradwyaethau Credyd Atodol i gynorthwyo cynlluniau tai yn 2002-03. Yn arbennig, croesawai'r Aelodau y trefniant newydd i ddarparu Cymeradwyaethau Credyd Atodol ar gyfer strategaethau eang eu cwmpas yn hytrach na chynlluniau unigol.

- Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion y cynigion a dderbyniwyd oddi wrth awdurdodau lleol am Gymeradwyaethau Credyd Atodol i gynorthwyo cynlluniau tai yn 2002-03.

- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â lwfansau cynghorwyr. Nododd y Pwyllgor fod ystyriaeth wedi'i rhoi i ostwng lwfansau cynghorwyr a oedd hefyd yn Aelodau o'r Cynulliad wrth ddrafftio'r rheoliadau ar lwfansau cynghorwyr.

- Dywedodd y Gweinidog y byddir yn rhoi ystyriaeth bellach i gyflwyno cynllun diswyddo i wobrwyo cynghorwyr a fu'n gwasanaethu ers cyfnod hir. Cytunai'r Aelodau y byddai angen canllawiau clir i'w dilyn wrth arfer unrhyw feini prawf dilynol a bennai pwy fyddai'n gymwys o dan y cynllun diswyddo. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion pellach am y cynllun diswyddo arfaethedig i gynghorwyr yn dilyn ei thrafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

- Croesawai'r Pwyllgor yr adolygiad o ffiniau sirol a oedd wedi eu cadw. Nododd yr Aelodau fod y system cyfeiriadau post ar hyn o bryd yn cadw'r hen siroedd a bod posibl i hyn achosi dryswch. Awgrymwyd y dylid gwahodd Swyddfa'r Post i wneud cyflwyniad i'r Pwyllgor. Byddai hynny'n caniatáu i'r Aelodau gyflwyno eu sylwadau i Swyddfa'r Post ar hyn a materion eraill.

- Rhoddodd y Pwyllgor gefnogaeth gref i gynigion i fabwysiadu ymagwedd newydd wrth roi'r gwerth gorau ar waith. Cytunai'r Aelodau fod yn rhaid symud oddi wrth gyfundrefn fiwrocrataidd a mabwysiadu model a ganolbwyntiai ar gyflwyno gwasanaeth. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion yr egwyddorion y cytunwyd arnynt yn ‘Rhaglen Cymru er mwyn Gwella’ i'r Pwyllgor.

- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â strwythurau rheoli gwleidyddol newydd. Teimlid y dylid rhoi'r un faint o sylw i'r pedwar opsiwn sydd ar gael i awdurdodau lleol wrth gynnal yr ymarferiad i ymgynghori â'r cyhoedd yngln â strwythurau rheoli gwleidyddol newydd.

- Tanlinellodd yr Aelodau rôl bwysig Pwyllgorau Manylu. Wrth sicrhau bod Pwyllgorau Manylu yn gweithio'n effeithiol, byddai'n rhaid i aelodau allu cael gafael ar wybodaeth ddigonol a chyngor annibynnol. Cytunodd y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn dilyn ei thrafodaethau gyda CLlLC am y gefnogaeth (er enghraifft, hyfforddiant) sydd ar gael i awdurdodau lleol wrth iddynt ddatblygu rôl Pwyllgorau Manylu.

- Croesawai'r Pwyllgor y cyllid ychwanegol a oedd ar gael ar gyfer teledu cylch cyfyng, yn enwedig y systemau symudol y buwyd yn eu defnyddio yng Nghasnewydd. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion pellach am y systemau teledu cylch cyfyng sydd ar waith, gan gynnwys sut y cânt eu monitro.

- Cytunodd y Gweinidog i drafod y gofyniad statudol i ddarparu arwyddion ffordd dwyieithog yn ei chyfarfod nesaf gyda CLlLC.

**Eitem 4: Y Comisiwn Digartrefedd – Ystyried yr Adroddiad Terfynol**

**(LGH-12-01 (p.2)**

4.1 Dywedodd Peter Black, Cadeirydd y Comisiwn Digartrefedd, fod y Comisiwn wedi ei sefydlu i roi cyngor i'r Cynulliad ar sut y gallai wireddu ei amcanion fel y'u nodwyd yn Gwell Cymru. Dywedodd i'r Comisiwn gwrdd naw gwaith rhwng Ionawr ac Awst a'i fod wedi ymweld â mudiadau sy'n ymwneud â digartrefedd ac â phobl ddigartref eu hunain.

2. Dywedodd Peter Black fod yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad terfynol yn gosod agenda lawn her i fynd i'r afael â digartrefedd drwy i lywodraeth ddi-fwlch weithio mewn partneriaeth â sefydliadau statudol a gwirfoddol allanol. Cafodd yr adroddiad ei roi ar y rhyngrwyd ac roedd sylwadau wedi eu gwahodd oddi wrth ystod o sefydliadau. Dywedodd fod ymateb wedi ei dderbyn hyd yma oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Bwrdeistref Caerffili a Chaer Las Cymru a chrynhodd y prif bwyntiau a wnaed.

4.3 Byddai barn y Pwyllgor yn mynd ymlaen i'r ddadl yn y cyfarfod llawn ar 20 Tachwedd pryd y byddid yn ystyried yr adroddiad. Câi strategaeth genedlaethol y Cynulliad ar ddigartrefedd ei seilio ar y gwerthusiad a'r ymatebion i'r argymhellion a byddai'n rhan o'r strategaeth tai genedlaethol.

4.4 Diolchodd Peter Black i'r Comisiynwyr a'r swyddogion a fu'n eu cynorthwyo am eu gwaith yn sefydlu'r Comisiwn ac yn cynhyrchu'r adroddiad. Roedd y Gweinidog am gofnodi ei diolch i Peter Black fel Cadeirydd y Comisiwn ar glawr a chadw ac ehangodd hynny i gynnwys pawb a fu'n ymwneud â gwaith y Comisiwn.

4.5 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Pwyllgor adroddiad ac argymhellion y Comisiwn Digartrefedd. Roedd yr Aelodau yn gryf o blaid gweithredu ar batrwm amlasiantaethol i fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau digartrefedd. Teimlid bod gan y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol rôl arbennig o bwysig i'w chwarae yn mynd i'r afael â digartrefedd a'r problemau cysylltiol. Nodwyd bod yr adroddiad wedi ei ddosbarthu i'r holl Weinidogion y

mae eu cyfrifoldebau'n cwmpasu cyfrifoldebau sydd a wnelont â materion digartrefedd.

- Mynegodd yr Aelodau beth siom â'r argymhelliad i newid y targedau yn Gwell Cymru er mwyn edrych eto ar yr amserlen ar gyfer dileu'r angen i gysgu allan. Teimlai'r rhan fwyaf o'r Aelodau fod angen targedau uchelgeisiol ond realistig i dywys yr agenda ar fynd i'r afael â digartrefedd yn ei blaen. Dywedodd Peter Black fod y targedau yn gyraeddadwy mewn rhannau o Gymru, ond y byddai anawsterau ymarferol rhag cyflwyno seilweithiau i fynd i'r afael â digartrefedd yn sicr o lesteirio'r broses mewn rhai ardaloedd.

- Awgrymwyd y byddai angen ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd priodol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion digartrefedd. Byddai hynny'n help i ymdrin ag ofnau pobl leol mewn ardaloedd lle'r oedd hosteli i'r digartref yn cael eu cynnig. Byddai'n holl-bwysig i adrannau tai awdurdodau lleol gynnwys pob adran berthnasol, gan gynnwys yr adran gynllunio, wrth lunio eu strategaethau digartrefedd.

- Croesawai'r Pwyllgor yr ymatebion a dderbyniwyd i'r adroddiad hyd yma. Roedd yn gryf o blaid darparu cynlluniau dodrefn, rhywbeth a nodwyd fel elfen hanfodol er mwyn cynorthwyo i ailsefydlu pobl ddigartref unwaith yr oedd llety addas wedi ei sicrhau.

- Cytunodd Peter Black i roi adroddiad diweddaru i'r Pwyllgor ar yr ymatebion i'r adroddiad Digartrefedd. Dywedodd y byddai adroddiadau pellach ar y strategaeth digartrefedd genedlaethol, gan gynnwys y camau a oedd yn cael eu rhoi ar waith o ganlyniad i argymhellion y Comisiwn, yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor ym Mawrth 2002.

- Nododd y Pwyllgor y byddai'r Gweinidog yn gofyn i'r Dirprwy Weinidog edrych ar rôl Foyers.

4.6 Diolchodd y Cadeirydd i Peter Black a'r Gweinidog am yr adroddiad a gwahoddodd nhw i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth dywys y strategaeth digartrefedd genedlaethol yn ei blaen. Ar ran y Pwyllgor diolchodd i'r gweithwyr rheng flaen sy'n gwneud cyfraniad amhrisiadwy yn gweithio gyda phobl ddigartref.

**Eitem 5: Y Mesur Digartrefedd – Ystyried goblygiadau'r Mesur Digartrefedd i Gymru: LGH-12-01 (p.3)**

5.1 Dywedodd y Gweinidog fod y Mesur Digartrefedd yn cynnwys yr un darpariaethau digartrefedd yn union bron ag a oedd wedi eu cynnwys yn y Mesur Cartrefi blaenorol a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn Ionawr 2001. Dywedodd fod y Mesur Digartrefedd wedi bod drwy ei ail ddarlleniad a'r disgwyl oedd y byddai'n cael Cydsyniad Brenhinol erbyn diwedd Ionawr 2002.

5.2 Dywedodd y Gweinidog fod y Mesur yn cynnwys darpariaethau a fyddai'n rhoi mwy o amddiffyniad i bobl ddigartref; yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol wrth iddynt helpu pobl ddigartref ac y byddai'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu strategaethau digartrefedd. Dywedodd y byddai'r Cynulliad yn cyflwyno canllawiau i awdurdodau lleol i'w helpu i

ddatblygu eu strategaethau digartrefedd. Y cynnig oedd y dylid defnyddio'r testun drafft a gyflwynwyd gan y Comisiwn Digartrefedd fel sail i ymgynghori pellach.

5.3 Rhoddodd y Pwyllgor gefnogaeth lawn i'r Mesur Digartrefedd a theimlai y byddai'r darpariaethau a oedd wedi eu cynnwys yn y Mesur yn help i fynd i'r afael â'r problemau digartrefedd yng Nghymru. Cytunwyd y byddai'r Cynulliad yn dod â Gorchymyn Cychwyn gerbron ar y cyfle cyntaf posibl. Teimlai'r Aelodau y byddai gwaith y Comisiwn Digartrefedd yn fodd i gyflymu'r broses o roi'r darpariaethau sydd yn y Mesur ar waith, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â strategaethau digartrefedd awdurdodau lleol.

5.4 Cafwyd trafodaeth bellach am strategaethau digartrefedd awdurdodau lleol. Teimlai'r Aelodau ei bod yn holl-bwysig bod awdurdodau lleol yn cyd-drefnu'r strategaethau hyn gan gymryd materion trawsffiniol i ystyriaeth. Wrth lunio strategaethau digartrefedd, byddai'n bwysig i awdurdodau lleol sicrhau bod mathau addas o lety ar gael i ddiwallu anghenion unigol pobl ddigartref.

**Eitem 6: Rhoi Cymunedau'n Gyntaf – Ystyried y canllawiau a'r fframwaith polisi terfynol: LGH-12-01 (p.4)**

6.1 Dywedodd y Gweinidog fod y canllawiau ar Rhoi Cymunedau'n Gyntaf wedi'u cyhoeddi ddiwedd Medi. Roeddynt yn cynnwys manylion am nodau'r rhaglen; sut y gall pobl gymryd rhan; sut i sefydlu Partneriaethau i yrru'r rhaglen yn ei blaen; sut y bydd y rhaglen yn gweithio'n ymarferol a sut y caiff cynnydd ei werthuso.

2. Yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog ym Mehefin am yr ardaloedd oedd i'w cynnwys yn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, penderfynwyd y dylid rhoi cyfle i wneud enwebiadau pellach ar lefel is na lefel ward. Cyhoeddodd y Gweinidog fod deuddeg ar hugain o enwebiadau ychwanegol wedi eu cymeradwyo a bod y cymunedau hyn wedi eu hychwanegu at y rhestr o ardaloedd sy'n gymwys i gael cymorth o dan y rhaglen.

6.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Pwyllgor y canllawiau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a'r cyhoeddiad yngln â'r cymunedau ychwanegol oedd i'w cynnwys yn y rhaglen ar lefel is na lefel ward. Er nad oedd y ddarpariaeth gyllidebol yn cynyddu i adlewyrchu'r cymunedau ychwanegol, byddid yn rhoi ystyriaeth i hynny yng nghylch y gyllideb y flwyddyn nesaf.

- Croesawai'r Aelodau y pwyslais a roddwyd ar rôl Partneriaethau wrth dywys y rhaglen yn ei blaen. Roeddynt yn gryf o blaid sicrhau bod Partneriaethau i gynnwys aelodau o'r gymuned ac o fudiadau cymunedol, yn ogystal ag o fudiadau statudol a gwirfoddol. Mynegwyd peth

siom nad oedd y Gwasanaeth Tân wedi'i gynnwys fel partner statudol, ond cytunwyd y câi hyn ei ailystyried y tro nesaf y câi'r canllawiau eu diweddaru. Nodwyd na fyddai angen cael cymeradwyaeth y Cynulliad i gyfansoddiad manwl y Partneriaethau. Mewn rhai ardaloedd, rhagwelwyd mai priodol fyddai i fudiadau cymunedol sydd wedi hen ennill eu plwyf arwain y gwaith o sefydlu'r broses Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

- Dywedodd y Gweinidog mai dogfen waith oedd y canllawiau Rhoi Cymunedau'n gyntaf ac y câi ei hadolygu yng ngoleuni profiad. Dywedodd y câi canllawiau pellach eu cyhoeddi ar gyfer awdurdodau lleol maes o law ar eu rôl nhw yn y broses Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Câi'r canllawiau ategol hyn eu llunio ar y cyd â CLlLC.

6.4 Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog am ei hadroddiad a gwahoddodd hi i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth dywys y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn ei blaen.

**Eitem 7: Pwysau gwasanaethau a buddsoddi sy'n wynebu llywodraeth leol – Cyflwyniad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:**

**LGH-12-01 (p.5)**

7.1 Dywedodd y Cyng. Syr Harry Jones y byddai angen cyllid refeniw a chyfalaf ychwanegol ar lywodraeth leol ar ben yr hyn a amlinellwyd yng nghynigion y gyllideb ddrafft. Dywedodd fod CLlLC yn amcangyfrif y byddai'r setliad refeniw ar gyfer 2002-03 yn rhagdybio twf o ryw 6 y cant mewn gwariant cyffredinol. Croesawai CLlLC y cynnydd arfaethedig mewn grant trosiannol ar gyfer 2002-03, a fwriedir i gyfyngu'r codiadau uchaf yn y dreth gyngor i 5 y cant, fel a amlinellwyd yn y cytundeb partneriaeth. Er gwaethaf hyn, dywedodd Syr Harry Jones y gallai rhai awdurdodau fod yn wynebu codiadau o hyd at 9 y cant yn eu treth gyngor unwaith eto.

7.2 Dywedodd y Cyng. Syr Harry Jones fod CLlLC yn croesawu'r cynigion yn y gyllideb ddrafft i gynyddu'r cyllid ar gyfer llywodraeth leol, yn enwedig y gwariant ychwanegol ar dechnoleg gwybodaeth. Byddai hyn yn caniatáu i awdurdodau lleol fanteisio ar y buddsoddiad y mae'r Cynulliad yn ei wneud mewn seilwaith band llydan i Gymru.

7.3 Cododd y Cyng. Syr Harry Jones y pryderon canlynol:

- Byddai'r rhan fwyaf o'r cyllid ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol yn y gyllideb ddrafft ar ffurf grantiau penodol er gwaethaf y penderfyniad y llynedd i beidio â phridiannu o fewn y setliad refeniw cyffredinol.

- Roedd y gyllideb ddrafft yn cynnwys rhai codiadau cyllido sylweddol i Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC), yn enwedig o ran eu costau rhedeg. Ymysg yr enghreifftiau yr oedd cynnydd o £7 miliwn (41 y cant) i ELWa ac £1.8 miliwn (13 y cant) i Asiantaeth yr

Amgylchedd. Yn ogystal, nid oedd unrhyw ostyngiad yn cael ei gynnig dros y 3 blynedd nesaf yng nghyllid y Cynulliad i gyrff sy'n arolygu ac archwilio llywodraeth leol. Yn groes i'r awydd i newid cydbwysedd y buddsoddiad mewn arolygu a gwella, yr hyn oedd yn cael ei gynnig oedd cynyddu'r cyllid i rai o'r cyrff hyn

- 

- Roedd y llinellau ar gyfer cyfalaf yn y gyllideb wedi eu rhewi ar eu lefel bresennol ers sawl blynedd, ac eithrio ym maes addysg a thai. Mynegodd CLlLC ei siom nad oedd y Cynulliad wedi cyfeirio unrhyw ran o'r adnoddau a oedd heb eu dyrannu yn dilyn cylch cyllideb 2001 tuag at fuddsoddi cyfalaf ychwanegol gan lywodraeth leol.

- Dywedodd y Cyng. Syr Harry Jones fod CLlLC yn croesawu'r cyllid a ddarperir i lywodraeth leol o'r hyblygrwydd sydd ar gael ar ddiwedd blwyddyn ond nad yw'r cyllid hwn yn cael ei ymgorffori yn y llinellau sylfaen ar gyfer 2003-04. Dywedodd fod CLlLC yn cefnogi'r cynigion i roi cyllid ychwanegol i Asiantaeth y Swyddfa Brisio i fwrw ymlaen â gwaith ailbrisio'r dreth gyngor a raglennwyd ar gyfer Ebrill 2004.

7.4 Cododd y Cyng. Russell Goodway y pryderon canlynol:

Addysg

- Roedd yna ddiffyg yn y cyllid ar gyfer ailstrwythuro cyflogau athrawon gan y byddai carfanau newydd o athrawon yn gymwys i dderbyn taliadau trothwy bob blwyddyn. Mae'n hanfodol bod y codiadau cyflog i athrawon presennol a'r rhai sydd newydd ymgymhwyso yn cael eu hadlewyrchu yng nghynigion y gyllideb o flwyddyn i flwyddyn. Yn ogystal, byddai angen codiadau pellach yn y cyllid i gwrdd â chostau'r cynnydd yng nghyfraniadau cyflogwyr tuag at bensiynau athrawon. Byddai angen i gyllid refeniw penodol ar gyfer ysgolion barhau i gynyddu yn 2002-03 os oeddid i barhau i leihau maint dosbarthiadau a gwneud gwelliannau eraill.

- Câi'r cyllid ychwanegol ar gyfer addysg feithrin i blant tair oed ei groesawu. Fodd bynnag, ni fyddai'n ddigonol i ddarparu addysg feithrin ran-amser i bob plentyn y tymor o fis Medi 2002 ar ôl iddo gyrraedd ei ben-blwydd yn dair.

Gwasanaethau cymdeithasol

- Nid yw'r adnoddau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn ddigonol. Dylid cydnabod bod i waith llywodraeth leol yn darparu gwasanaethau cymdeithasol effeithiol ran bwysig i'w chwarae er cyflawni amcanion ehangach y gwasanaeth iechyd.

Agenda foderneiddio llywodraeth leol

- Nid oedd unrhyw gynigion yn y gyllideb ddrafft i gynyddu'r cyllid sydd ar gael i helpu i roi agenda foderneiddio llywodraeth leol ar waith. Byddai gweithredu'r agenda yn dod â goblygiadau cost difrifol yn ei sgîl yn nhermau hyfforddiant ychwanegol i staff, swyddogion ac aelodau.

5. Codwyd pryder gan y Cyng. Russell Goodway fod y cynnydd mewn cyllid cyfalaf yng Nghymru yn sylweddol is nag yn Lloegr.

5. Tynnwyd sylw at y pwyntiau canlynol:

- Roedd CLlLC yn siomedig yngln â'r gostyngiad yn y cynlluniau a gyhoeddwyd cynt am grant trafnidiaeth. Mewn cyferbyniad, ceid cynnydd yn y cyllid ar gyfer cefnffyrdd a thraffyrdd.

- Roedd yna bryderon difrifol yngln â'r diffyg cyllid cyfalaf ar gyfer tai. Dywedodd CLlLC ei bod yn well i lywodraeth leol un ai roi rhagor o adnoddau i lywodraeth leol i'w buddsoddi mewn gwaith cynnal a chadw ac adnewyddu neu ganiatáu yr un rhyddid iddynt â chymdeithasau tai i fenthyca. Nid oedd y cynnydd arfaethedig mewn cyllid cyfalaf ar gyfer tai (£10 miliwn yn 2002-03 ac £20 miliwn yn 2003-04) yn ddigonol.

- Roedd yna siom nad oedd y Cynulliad yn bwriadu cyflwyno Lwfans Gwaith Atgyweirio Mawr o fewn cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai yn 2002-03. Er y byddai hynny'n golygu mwy o bridiannu byddai'n darparu adnoddau ychwanegol y mae mawr eu hangen ar gyfer gwaith cyfalaf neu i fod yn gefn i brosiectau Menter Cyllid Preifat (PFI).

- Roedd yna bryder na fyddai'r Grant Tai Cymdeithasol ar gael mwyach ar gyfer cynlluniau newydd sy'n ymwneud â stoc tai cynghorau. Yn ymarferol, byddai hyn yn lleihau'r adnoddau posibl sydd ar gael i fuddsoddi mewn gwella tai cyngor.

7.7 I grynhoi, teimlai CLlLC y gallai cynigion y gyllideb fel y'u hamlinellwyd uchod gyfyngu'n ddifrifol ar y canlyniadau y byddai llywodraeth leol yn eu cyflawni. Roedd yn hanfodol bod y Cynulliad yn deall yr effaith ddifrifol y gallai'r cynigion ei chael ac yn teilwrio ei ddisgwyliadau yn unol â hynny.

7.8 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â defnyddio grantiau penodol fel cyllid sydd wedi'i bridiannu. Cytunodd y Pwyllgor y dylid ystyried grantiau penodol fel mesur cyllido tymor byr. Teimlai fod yn rhaid cynnwys grantiau penodol yn y setliad refeniw cyffredinol cyn gynted ag sy'n ymarferol. Byddai hyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol yn y modd y maent yn dyrannu cyllid ac yn rhoi mwy o ddisgresiwn lleol.

- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â'r cynnydd sylweddol yng nghyllid ELWa, yn enwedig o

ran costau rhedeg. Awgrymwyd y gallai codiadau ychwanegol mewn gwariant a briodolir i gostau rhedeg fod yn angenrheidiol yn y tymor byr. Teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig buddsoddi'r cyllid hwn yn rhannol mewn gwasanaethau rheng flaen. Byddai'n bwysig bod arbedion tymor hir sylweddol yn cael eu gwneud yn sgil ailstrwythuro addysg ôl-16.

- Nododd y Pwyllgor y costau y mae llywodraeth leol yn eu hwynebu o ganlyniad i'r codiadau cyflog i athrawon. Teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig nad yw'r costau hyn a chostau staff eraill yn cael eu talu ar draul y gwasanaeth a gyflenwir. Awgrymodd y Gweinidog y byddai gwaith pellach yn cael ei wneud gan swyddogion i ganfod atebion posibl i'r pwysau ariannol a wynebir o ganlyniad i ailstrwythuro cyflogau athrawon.

- Cafwyd rhywfaint o drafod am gyllid cyfalaf ar gyfer tai. Nodwyd bod gwaith pellach yn cael ei wneud ar fodel y ‘cwmnïau cydfuddiannol cymunedol’ fel ffordd o drosglwyddo stoc tai. Roedd yn bwysig i'r Cynulliad barhau i ddwyn pwysau ar Drysorlys E M i ddisodli rheolaeth ganolog dros fenthyca gyda System Benthyca Darbodus. Nododd y Pwyllgor fod Trysorlys E M wedi cytuno i gyllido dyledion sy'n dal yn weddill ar ôl i stoc tai awdurdod lleol gael ei drosglwyddo.

- Croesawai'r Pwyllgor y buddsoddiad mewn seilwaith band llydan yng Nghymru. Byddai hyn yn darparu rhwydwaith cyflym a mynediad rhyngrwyd band llydan ym mhob awdurdod lleol ac yn golygu bod gwasanaethau rhyngrwyd ar gael ledled y sector addysg a dysgu. Roedd yn hanfodol bwysig sicrhau bod cynlluniau wedi eu sefydlu i wneud yn sir bod y gwasanaeth a ddarperir yn gallu cyrraedd ardaloedd gwledig ledled Cymru.

7.9 Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr CLlLC am eu cyflwyniad llawn gwybodaeth ac am iddynt gyfrannu at drafodaeth y Pwyllgor.

**Eitem 8: Y Gyllideb – Ystyried y gyllideb ddrafft: LGH-12-01 (p.6)**

8.1 Dywedodd y Gweinidog fod y gyllideb ddrafft, a drafodwyd yn y cyfarfod llawn ar 18 Hydref, yn cael ei chyflwyno fel rhan o Gylch Cynllunio'r Gyllideb ar gyfer 2002-03, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19. Dywedodd fod y gyllideb ddrafft yn adlewyrchu barn y Pwyllgor yn dilyn ei drafodaeth ar y papur materion a gyflwynwyd yn y cyfarfod ar 4 Gorffennaf.

8.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cymeradwyodd y Pwyllgor y gyllideb ddrafft a'r camau yr oedd y Gweinidog wedi eu cymryd i gwrdd â blaenoriaethau'r Pwyllgor. Croesawai'r symudiad oddi wrth bridiannu a theimlai y byddai hyn yn rhoi mwy o le i awdurdodau lleol wario eu hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol.

- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â'r ffordd y câi cynigion Gweinidogion eu trawsgyfeirio er mwyn rhoi sylw i faterion sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd. Teimlai'r Pwyllgor ei bod yn neilltuol o bwysig bod y Gweinidog a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyd-drefnu eu cynigion i'w cynorthwyo i wireddu amcanion cyffredin. Awgrymwyd bod effaith y Ddeddf Safonau Gofal a'r angen am fuddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau hamdden yn bwysau ariannol sylweddol sy'n wynebu llywodraeth leol. Roedd y rhain yn faterion ac iddynt oblygiadau i'r gwasanaeth iechyd yn ogystal â llywodraeth leol a dylid ymdrin â nhw felly.

- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â chynlluniau rheoli asedau awdurdodau lleol. Nodwyd nad oedd yr un awdurdod wedi paratoi cynlluniau eto, er bod y mwyafrif yn bwriadu dechrau'r broses yn ystod 2001. Awgrymwyd y dylid rhoi ystyriaeth i ddarparu cyllid ychwanegol i lywodraeth leol er mwyn cyflymu'r broses.

8.3 Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog am y papur a dywedodd y byddai'n ysgrifennu ati gyda barn y Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft.

**Eitem 9: Adolygiad polisi – Adroddiad cynnydd ar yr adolygiad polisi ar adfywio cymunedol: LGH-12-01 (p.7)**

9.1 Dywedodd y Cadeirydd fod proses ymgynghori'r adolygiad polisi ar adfywio cymunedol yn mynd rhagddi erbyn hyn. Dywedodd fod ymateb wedi ei dderbyn oddi wrth amrywiaeth eang o fudiadau ac y câi sesiynau llafar eu trefnu er mwyn i'r Pwyllgor gael clywed safbwyntiau pellach. Dywedodd y Cadeirydd y byddid, gyda chytundeb yr Aelodau, yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Busnes i gynnal cyfarfod ychwanegol ffurfiol o'r Pwyllgor ar 15 Tachwedd.

9.2 Dywedodd y Cadeirydd fod yr Athro David Adamson wedi ei benodi'n ymgynghorydd arbenigol i'r Pwyllgor i gynorthwyo gyda'r adolygiad polisi. Câi'r Athro Adamson ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar y cyfle cyntaf posibl.

9.3 Cytunodd y Pwyllgor fod cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor i'w gynnal ar 15 Tachwedd, gyda chymeradwyaeth y Pwyllgor Busnes.

**Eitem 10: Cofnodion cyfarfod 18 Gorffennaf: LGH-11-01 (min)**

10.1 Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod 18 Gorffennaf.